**PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 17 Hydref 2001 |
| **Amser:** | 2.00 i 4.30 pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

## AMGYLCHEDD HANESYDDOL CYMRU: CYLCH GORCHWYL DRAFFT AR GYFER YR ADOLYGIAD PUM-MLYNYDDOL O CADW

### Y Mater o dan Sylw

1. O dan Reol Sefydlog 9.8(v), estynnir gwahoddiad i'r Pwyllgor gyflwyno sylwadau am y cylch gorchwyl drafft ar gyfer yr adolygiad pum-mlynyddol o Cadw.

### Argymhelliad

2. Estynnir gwahoddiad i'r aelodau gyflwyno sylwadau am y cylch gorchwyl drafft a amgaeir.

### Amseru

3. Ar ôl ystyried unrhyw sylwadau a wnaed gan aelodau'r Pwyllgor, mae Edwina a minnau yn gobeithio gwneud cyhoeddiad ffurfiol yn y man ynghylch pryd y bydd yr adolygiad hwn yn dechrau.

### Y Cefndir

4. Ym mis Ionawr 2001, cyhoeddodd Edwina Hart y rhaglen ar gyfer adolygiadau pum-mlynyddol o gyrff gweithredol a fyddai'n cael eu cynnal yn 2001-2002. Cynhwyswyd Cadw, er

mai asiantaeth weithredol ydyw sy’n rhan o strwythur staffio’r Cynulliad Cenedlaethol, yn hytrach na Chorff Cyhoeddus gweithredol a Noddir gan y Cynulliad.

5. Cynhelir yr adolygiad gan Martin Rolph, aelod o staff y Cynulliad sydd ar hyn o bryd yn gweithio gyda’r Grp Cyllid. Yn amodol ar unrhyw sylwadau a gyflwynir gennych am y cylch gorchwyl drafft, mae’n fwriad gennyf gyhoeddi yn y man pryd y bydd yr adolygiad hwn yn dechrau.

**Cydymffurfio**

6. Gan fod Cadw yn gymaint rhan o’r Cynulliad ag unrhyw is-adran neu grp arall, nid os unrhyw faterion yn ymwneud â chydymffurfio yn deillio o’r penderfyniad i’w adolygu.

7. Bydd yr adolygydd yn glynu’n fras at ganllawiau’r Cynulliad ar gynnal adolygiadau pum-mlynyddol o Gyrff Cyhoeddus gweithredol a Noddir gan y Cynulliad, a gyhoeddwyd gan Edwina Hart yn y Cyfarfod Llawn ar 10 Mawrth 2000. Bydd rhai o fanylion yr adolygiad yn adlewyrchu’r statws gwahanol sydd gan Cadw, ond bydd yr hanfodion yr un peth.

**Etifeddiaeth y Cymro a Cadw**

8. Yr wyf am weld yr adolygiad hwn yn ychwanegu cymaint o werth â phosibl at y gwaith o ddatblygu a gweithredu polisïau sy’n ymwneud ag amgylchedd hanesyddol Cymru yn gyffredinol, yn ogystal ag ychwanegu at werth gwaith Cadw, felly mae’r cylch gorchwyl yn cyfarwyddo’r adolygydd i sicrhau ei fod yn rhoi gwahoddiad agored i unrhyw un sydd am gyflwyno sylwadau wneud hynny.

**Themâu Trawsbynciol**

9. Cyfeirir atynt yn benodol yn y cylch gorchwyl drafft.

**Goblygiadau Ariannol**

10. Mae darpariaeth ar gyfer costau’r swyddog sy’n cynnal yr adolygiad yn y gyllideb ar gyfer

costau gweinyddol. Bydd yr adroddiad drafft yn cyfeirio at gostau'r adolygiad.

**Camau i'w Cymryd gan y Pwyllgor**

11. Estynnir gwahoddiad i'r Pwyllgor nodi'r cylch gorchwyl drafft, a chynnig sylwadau arno, cyn i mi ac Edwina Hart gyd-gyhoeddi'r fersiwn terfynol.

**SUE ESSEX**

**Atodiad 1**

**AMGYLCHEDD HANESYDDOL CYMRU: ADOLYGIAD**

**PUM-MLYNYDDOL O ASIANTAETH WEITHREDOL CADW**

**CYLCH GORCHWYL DRAFFT**

**1. RHAGYMADRODD**

1.1 Mae'r Adolygiad Pum-mlynyddol o Cadw, sy'n un o Asiantaethau Gweithredol y Cynulliad, yn cael ei gynnal yng nghyd-destun bras y Canllawiau a gyhoeddwyd gan y Cynulliad ar Adolygiadau Pum-mlynyddol o Gyrff Cyhoeddus Gweithredol a Noddir gan y Cynulliad. Mae hyn yn cynnwys hunan-asesiad gan Cadw, trafodaethau â'r uwch swyddogion, ac estyn gwahoddiad i fudd-ddeiliad o bwys, gan gynnwys cwsmeriaid, yr holl staff a'u hundebau, a phartneriaid eraill, gan gynnwys y cyhoedd, fynegi barn. Mae'r ymarfer hwn hefyd yn rhoi cyfle i'r holl bobl uchod fynegi barn am amgylchedd Cymru, a beth ddylem ei wneud yn ei gylch.

1.2 Nodir y cwestiynau allweddol y mae'n rhaid i'r Adolygiad eu hateb yn y Cylch

Gorchwyl. Mae'r Cylch Gorchwyl hefyd yn ystyried materion sy'n gysylltiedig yn benodol ag amgylchedd hanesyddol Cymru, ac yn arbennig â Cadw. Gan mai **asiantaeth weithredol** ydyw (yn wahanol i Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad), mae Cadw yn gymaint rhan o strwythur staffio'r Cynulliad ag unrhyw un arall o is-adrannau'r Cynulliad.

1.3 Bydd dwy ran i'r Adolygiad: yr Adolygiad Strategol a'r Adolygiad o Lywodraethu Corfforaethol. Mae adolygiadau pum-mlynyddol yn cael eu cynnal ar hyn o bryd hefyd o'r ddau gorff statudol **ymgynghorol** sy'n cynghori Cadw (Bwrdd Henebion Cymru a Chyngor Adeiladau Hanesyddol Cymru), a chynigir hefyd y dylai'r adolygiad o'r Comisiwn Brenhinol ar Henebion yng Nghymru (sy'n gorff cyhoeddus **gweithredol** a noddir gan y Cynulliad) ddechrau cyn bo hir. Mae'r holl adolygiadau hyn yn rhai gwahanol, ond yr un swyddog o'r Cynulliad, sy'n annibynnol ar y 4 corff, fydd yn eu cynnal.

## 2. YR ADOLYGIAD STRATEGOL

2.1 Y cyd-destun ar gyfer yr Adolygiad Strategol yw cynllun strategol y Cynulliad, y Cytundeb Partneriaeth, y Cynllun drafft ar gyfer Cymru 2001, a dogfennau polisi cysylltiedig.

### Cam 1 Cyd-destun Strategol y Swyddogaethau sy'n ymwneud â'r Amgylchedd Hanesyddol

2.2 Mae'r meysydd y mae Cadw yn ymwneud â hwy yn cynnwys elfennau o'r agweddau canlynol ar yr amgylchedd hanesyddol:

- Safleoedd archeolegol
- Adeiladau hanesyddol
- Parciau a gerddi
- Elfennau eraill sy'n rhan o gymeriad hanesyddol y dirwedd (e.e. cloddiau, patrymau caeau)
- Lleoliadau trefol a gwledig.

2.3 Mae'r amgyffred sydd gan bobl o elfennau o'r amgylchedd hanesyddol, a'u dehongliad ohonynt, yn rhai sy'n bodloni eu hanghenion eu hunain ac sy'n gydnaws â'u syniadau a'u dyheadau hwy. Mae angen i bolisïau a

gweithgareddau'r Cynulliad Cenedlaethol adlewyrchu hyn wrth glustnodi, gwerthfawrogi, rheoli a defnyddio amgylchedd hanesyddol Cymru. Rhoddir peth ystyriaeth yn yr adolygiad hwn i'r materion hynny, gan mai dyma'r fframwaith hanfodol ar gyfer mynd i'r afael â rhai o'r materion sy'n ymwneud yn fwy penodol â Cadw.

2.4 **Yng ngoleuni dyletswyddau a swyddogaethau Cadw ac yng ngoleuni amcanion y Cynulliad Cenedlaethol, a oes angen holl swyddogaethau Cadw o hyd ac, os felly, ai'r fframwaith trefniadol presennol yw'r un mwyaf priodol?**

a. Beth yw'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer swyddogaethau Cadw o ran deddfwriaeth sylfaenol, eilaidd ac Ewropeaidd ac o ran dogfennau fframwaith ffurfiol?

b. A oes angen Cadw o hyd, ac am ba hyd?

c. A oes angen i gorff sy'n un o asiantaethau gweithredol y Cynulliad gyflawni'r swyddogaethau hyn, neu a yw fframweithiau trefniadol eraill yn debygol o fod yn fwy effeithiol?

ch. A oes lle i ad-drefnu swyddogaethau Cadw a chyrff eraill sy'n gweithio ym maes yr amgylchedd hanesyddol?

**Cam 2 Effeithiolrwydd Strategol**

2.5 **A ddylid gwella'r ffordd y mae Cadw yn cyflawni ei swyddogaethau, o ystyried gwerthoedd ac amcanion y Cynulliad Cenedlaethol, ac o ran sut mae'r corff yn gweithio gyda'r Cynulliad Cenedlaethol?**

a. Ers i Cadw gael ei sefydlu, beth yw’r prif bethau strategol y mae wedi’u cyflawni, a yw wedi bodloni ei amcanion, sut mae wedi perfformio yn erbyn ei dargedau, sut mae ei berfformiad yn cymharu â pherfformiad cyrff tebyg, a oes materion yn ymwneud â’i berfformiad y mae angen mynd i’r afael â hwy?

b. Pa mor effeithiol yw cynllunio corfforaethol Cadw o safbwynt datblygu cyfeiriad strategol clir, ac o ran gosod targedau a phennu blaenoriaethau? Wrth ymdrin â’r amrediad cyfan o gyfrifoldebau sydd ganddo, a yw’r hyn a roddir i mewn o ran adnoddau yn cyfateb yn effeithiol i’r amcanion a’r targedau y mae’n eu gosod?

c. A yw strwythur trefniadol Cadw yn addas at y diben sydd iddo? A yw strwythur y corff yn ei alluogi i gydnabod anghenion rhanbarthol yn llawn?

ch. A oes cyd-ddealltwriaeth effeithiol o swyddogaethau’r uwch reolwyr wrth bennu amcanion corfforaethol ac wrth fonitro a ydynt yn cael eu rhoi ar waith?

d. A yw’r staff, at ei gilydd, yn deall yr amcanion corfforaethol ac yn teimlo eu bod yn ‘eiddo’ iddynt hwy?

dd. I ba raddau y mae amcanion Cadw a’r ffordd y mae’n gweithredu yn

gydnaws ag amcanion, themâu canolog a gwerthoedd y Cynulliad (datblygiad cynaliadwy, mynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol, cyfle cyfartal, gweithio mewn ffordd strategol, gweithio mewn partneriaeth a bod yn gynhwysol)? Beth sydd angen ei wneud er mwyn creu cysylltiad mwy clòs â'r themâu sylfaenol hyn?

e. A oes gan Cadw berthynas gynhyrchiol â'i bartneriaid allweddol o ran polisi, cynllunio a gweithredu? Sut y gellid mynd ati i gryfhau'r berthynas hon?

f. A yw Cadw yn atebol i'w bartneriaid a'i gwsmeriaid? A yw'n ennyn hyder ynddynt fel corff y gallant weithio gydag ef, a oes yna ffyrdd i fynd ati i gryfhau'r berthynas sydd rhyngddynt?

ff. A yw Cadw yn gorff sydd yn hawdd i'r cyhoedd gysylltu ag ef, a yw'n effeithiol wrth hyrwyddo'i ddibenion a'i wasanaethau?

2.4 **A oes angen gwella'r ffordd y mae Cadw'n ymwneud â gweddill y Cynulliad?**

a. A yw Cadw'n effeithiol wrth gynghori'r Cynulliad ar bolisi ar amgylcheddau hanesyddol, ac a yw'n gallu rhoi cyngor effeithiol ar gynigion am ddeddfwriaeth sylfaenol ac eilaidd newydd sy'n berthnasol i'w waith?

b. A yw'r trefniadau adrodd rhwng Cadw a gweddill y Cynulliad Cenedlaethol yn fframwaith digonol?

c. A oes angen mwy o ryddid a hyblygrwydd ar Cadw er mwyn gwella'r ffordd y mae'n cyflawni ei swyddogaethau, ac os felly, sut y gellid sicrhau hyn heb ei wneud yn llai atebol i'r Cynulliad?

## 3. ADOLYGIAD O LYWODRAETHU CORFFORAETHOL

**A yw Cadw yn effeithiol wrth reoli'i adnoddau ariannol, ac a yw'n gwneud hynny yn unol â gofynion rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian, ac yn unol â darpariaethau ei Ddogfen Fframwaith? Pa ddatblygiadau a welwyd o ran gweithredu mewn ffordd fwy effeithlon? Yng ngoleuni'r uchod, pa newidiadau y dylid eu gwneud i'w Ddogfen Fframwaith?**